Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Gader
# Dolgellau
# Gwynedd
# LL40 1HY

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2010**

**gan**

**Gareth Wyn Roberts**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011. Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymunedol naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11-16 oed a gynhelir gan Awdurdod Unedig (AU) Gwynedd yw Ysgol y Gader, ac mae ynddi 392 o ddisgyblion sy'n gynnydd o 83, ers yr arolygiad diwethaf yn 2004. Disgwylir i nifer y disgyblion ostwng dros y blynyddoedd nesaf.

Daw'r disgyblion o'r dref ac o'r pentrefi neu'r ardal wledig gyfagos. Daw 151 (38%) o'r disgyblion o'r tu allan i ddalgylch yr ysgol. Daw bron bob un o'r disgyblion o ardaloedd nad ydynt yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd neu gymdeithasol. Mae 10.7% o'r disgyblion wedi'u cofrestru i fod â hawl i brydau am ddim, cynnydd o 4% ers yr arolygiad blaenorol. Mae 98% o'r disgyblion yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae AU yn gofalu am bedwar disgybl.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae proffil gallu'r disgyblion ar eu mynediad i'r ysgol yn B7 yn ddigon tebyg i'r proffil cenedlaethol a sirol. Mae 20 (5.1%) o'r disgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae hyn yn cynnwys y 12 disgybl sy'n mynychu uned anghenion addysgol arbennig ardal a leolir ar safle'r ysgol. Datgymhwyswyd 12 o ddisgyblion o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn ogystal, mae 67 (17.6%) o'r disgyblion ar gamau y cod ymarfer ar gyfer disgyblion sydd ag AAA.

Daw 47% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith a'r gweddill o gartrefi lle siaredir Saesneg. Gall 93% o'r disgyblion siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf ac mae pob disgybl a ddilynodd y Gymraeg fel mamiaith yn yr ysgol gynradd yn parhau i wneud hynny.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Ionawr 2004.

Fel rhan o'r Cwricwlwm 14-19, trefnir nifer o gyrsiau galwedigaethol ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol (CA) 4 ar y cyd ag ysgol uwchradd gyfagos a hefyd â Choleg Meirion Dwyfor.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl unigol ar gyfer Ysgol Y Gader yn 2010-2011 yw £5024 sy'n cymharu gydag uchafswm o £5024 ac isafswm o £3965 ar gyfer ysgolion uwchradd yng Ngwynedd. Dyma'r ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl uchaf o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd. Mae'r swm, fodd bynnag, yn cynnwys y gyllideb ar gyfer uned arbennig Tŷ Meirion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae hon yn ysgol dda oherwydd-

- yr ethos ofalgar a Chymreig;
- safonau cyffredinol da, a
- chydweithio effeithiol gyda rhanddeiliaid yr ysgol.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd-

- ymrwymiad cadarn y pennaeth a'r uwch-dim rheoli (UDRh) i welliant parhaus;
- strwythurau cadarn ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella, ac
- ymrwymiad cadarn i barhau gydag ansawdd uchel o ofal dros holl ddisgyblion yr ysgol, a'r drefn sydd yn sicrhau bod staff a disgyblion yn parchu'r nail a'r llall a hynny'n hywyddo ymddygiad cyson dda.

## Argymhellion

I sicrhau gwelliant, dylai staff a llywodraethwyr Ysgol Y Gader:-

A1. godi safonau mathemateg drwy'r ysgol;

A2. barhau i wella safonau yn y Gymraeg a pharhau i leihau'r bwlch rhwng canlyniadau bechgyn a merched ar draws y pynciau;

A3. sicrhau bod yr arferion addysgu ac asesu ar gyfer dysgu rhagorol a welir mewn nifer bychan o wersi yn cael eu lledaenu drwy'r ysgol;

A4. ddiffinio'n gliriach a chryfhau ymhellach gyfrifoldebau rheolwyr,a

A5. gwella ansawdd cynlluniau datblygu adran.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

*Bydd yr ysgol yn llunio cynllun ymateb i'r argymhellion.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn CA3, mae perfformiad y disgyblion wedi gwella. Pan gaiff yr ysgol ei chymharu gydag ysgolion tebyg o safbwynt meincnodau ysgolion yn yr un grŵp cinio am ddim, (PYD), yn 2010, roedd perfformiad disgyblion yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer y Saesneg ac yn yr hanner uchaf ar gyfer gwyddoniaeth. Roedd perfformiad yn y Gymraeg a mathemateg, fodd bynnag, yn yr hanner isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn 2010, roedd canlyniadau yn Saesneg yn dda iawn, er yn is na rhai'r blynyddoedd blaenorol. Roeddynt yn uwch na chyfartaledd perfformiad yr ysgolion yn yr un teulu[1], ac yn sylweddol well na pherfformiad Cymru gyfan. Roedd canlyniadau mathemateg yn ddigon tebyg i gyfartaledd y teulu ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Roedd

[1]Crëwyd teuluoedd o ysgolion er mwyn caniatáu i ysgolion gymharu eu perfformiad gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC) yn dosbarthu ysgolion i deuluoedd yn ôl cyfuniad o nodweddion, sef ysgolion gyda chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i bryd am ddim, canrannau'r disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

canlyniadau gwyddoniaeth ychydig yn well na chyfartaledd y teulu ac yn arwyddocaol uwch na chyfartaledd Cymru. Roedd perfformiad y disgyblion yn y dangosydd pynciau craidd (DPC)[2] yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn sylweddol uwch nag un Cymru.

Bu i ddisgyblion galluog gyflawni'n dda yn Saesneg dros y dair blynedd diwethaf. Nid yw cyrhaeddiad y disgyblion galluocaf mor dda yng ngwyddoniaeth a mathemateg.

Yn CA4, drwyddo draw, nid oedd canlyniadau 2010 cystal â rhai 2009, er eu bod ychydig yn well na rhai 2008.

Bu perfformiad y disgyblion ym mwyafrif y pynciau dewisol yn dda rhwng 2008 a 2010.

Yn 2010, roedd canran y disgyblion yn cyrraedd trothwy lefel 1, (sef yn ennill graddau A*-G mewn pump neu fwy o bynciau TGAU neu gymwysterau cyfatebol), ychydig is na chyfartaledd y teulu ond yn uwch na chyfartaledd Cymru, gyda'r bechgyn yn gwneud ychydig yn well na'r merched.

Roedd canran y disgyblion yn cyrraedd trothwy lefel 2 (sef graddau A*-C mewn pump neu fwy o bynciau TGAU neu gymwysterau cyfatebol) yn is nag un y teulu ond yn sylweddol uwch nag un Cymru.

Roedd canran y disgyblion yn cyrraedd y trothwy lefel 2 arall sy'n cynnwys naill ai'r Gymraeg (mam iaith) neu Saesneg a mathemateg, yn sylweddol is na chanran y teulu er yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae canlyniadau mathemateg wedi effeithio ar ganran y disgyblion sy'n cyrraedd y trothwy lefel 2 hwn a'r ganran disgyblion sydd wedi cyrraedd y DPC yn CA4. Roedd y ganran DPC yn llawer is na'r teulu ond eto'n uwch na chanran Cymru.

Oherwydd canlyniadau ym mathemateg, roedd canrannau'r disgyblion sy'n cyrraedd y DPC ac yn cyrraedd trothwy lefel 2 yn gosod yr ysgol yn hanner isaf ysgolion tebyg o safbwynt PYD. Roedd canrannau'r disgyblion sy'n cyrraedd trothwy lefel 1 a lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, yn gosod yr ysgol yn chwarter isaf ysgolion tebyg o safbwynt PYD.

Fel arfer, nid yw canlyniadau'r bechgyn cystal â rhai'r merched. Yn 2010, roedd gwahaniaeth amlwg rhwng ansawdd canlyniadau'r bechgyn a'r merched yn CA3 yn y Gymraeg. Yn 2010, ar ddiwedd CA4, roedd gwahaniaeth mawr rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched yn Saesneg a mathemateg a'r ganran sy'n cyrraedd lefel 2, gyda'r merched yn cyrraedd safonau gwell. Nid oedd y gwahaniaeth mor amlwg yng ngwyddoniaeth a'r Gymraeg.

Mae disgyblion sy'n fewnfudwyr o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig yn gwneud cynnydd da. Mae plant mewn gofal yn gwneud cynnydd priodol, a'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y disgyblion sy'n derbyn PYD a'r rhai sy'n talu am eu cinio.

---

[2] Dangosydd pynciau craidd (DPC) CA3 yw canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn cyfuniad o Gymraeg (Mamiaith) neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Dangosydd pynciau craidd (DPC) CA4 yw canran y disgyblion sy'n ennill gradd A*-C yn yr un cyfuniad o bynciau.

Yn ystod y cyfnod 2008-2010 ni adawodd yr un disgybl yr ysgol heb gymwyster cydnabyddedig. Dim ond dau (3.4%) o ymadawyr yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 11 yn 2010 oedd yn perthyn i'r grŵp nad ydynt mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant. Mae hyn yn is na chanran y sir (4.2%) a chanran Cymru (5.7%).

Mae disgyblion CA3 a CA4 yn gwneud cynnydd da er bod y cynnydd yn amrywio o bwnc i bwnc. Mae'r cynnydd yn dda ym mwyafrif y pynciau dewisol yn CA4 ond yn anwastad yn y pynciau craidd. Mae cynnydd yn Saesneg a gwyddoniaeth yn dda. Nid yw cystal ym mathemateg.

Mae safonau disgyblion mewn gwrando, llafaredd, darllen, ysgrifennu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda drwy'r ysgol.

Mae safonau cyflawniad Cymraeg y 93% o'r disgyblion sy'n astudio Cymraeg Mamiaith yn dda. Mae'r disgyblion yn gwrando, siarad, ysgrifennu a darllen yn dda. Mae'r ychydig ddisgyblion sy'n dysgu'r Gymraeg yn ail iaith yn gwneud cynnydd da iawn. Mae defnydd y disgyblion a'r staff o'r Gymraeg a'r Saesneg yn rhan naturiol o fywyd cymdeithasol yr ysgol ac o'r addysgu a'r dysgu ar draws y cwricwlwm.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at fwyta'n iach a gwella eu ffitrwydd. Maent yn gwerthfawrogi'r holl weithgareddau allgyrsiol a chwaraeon sy'n cael eu darparu ar eu cyfer. Mae gan bron bob disgybl ddiddordeb a brwdfrydedd yn ei waith ac yn dangos balchder ynddo.

Mae bron pawb yn hynod barchus a gofalus o'i gilydd. Mae medrau cymdeithasol, ymglymiad cymunedol y disgyblion, eu gallu i wneud penderfyniadau a'u hamgyffred o sgiliau byw yn dda. Mae eu hymddygiad yn gyson dda ac mae eu hagweddau at ddysgu'n gadarnhaol. Mae presenoldeb yn yr ysgol yn foddhaol. Mae'r nifer isel iawn o waharddiadau parhaol a dros dro yn ganmoladwy.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm effeithiol yn y ddau gyfnod allweddol ac ar gyfer pob disgybl. Mae cwricwlwm CA3 yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae'r ddarpariaeth hyblyg yn adeiladu'n gadarnhaol ar y wybodaeth, y dealltwriaeth a'r medrau a ddysgwyd yn flaenorol.

Yn CA4, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol sy'n bodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Cyflwynir cwricwlwm effeithiol mewn cydweithrediad â nifer o ddarparwyr eraill.

Yn CA4, darperir cyfleoedd da i gryfhau medrau bywyd a medrau cymdeithasol y disgyblion trwy gynnig cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang a chytbwys o ddewisiadau pynciol sy'n bodloni anghenion pob disgybl.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau allgyrsiol da yn CA3 a CA4. Caiff y profiadau hyn eu hwyluso gan bartneriaethau a sefydlwyd rhwng yr ysgol a chyrff eraill.

Datblygir medrau'r disgyblion yn dda trwy wersi penodol a chydlynu da sy'n datblygu'r medrau hanfodol yn ogystal â TGCh yn CA3 a CA4 gan arwain at achrediad allanol. Mae hon yn nodwedd dda. Mae strategaethau ymyrryd yn weithredol i gynorthwyo disgyblion sy'n cael trafferthion o ran eu sgiliau llythrennedd.

Mae pob gwers yn yr ysgol, ag eithrio Cymraeg, Saesneg a ieithoedd modern tramor, yn cael eu haddysgu'n ddwyieithog. Mae hyn yn nodwedd dda. Mae hwyrddyfodiaid yn mynychu canolfan iaith ym Mhorthmadog ac mae hyn yn eu cynorthwyo i gael eu hintegreiddio'n llwyddiannus i fywyd naturiol ddwyieithog yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn ymgymryd â nifer o weithgareddau sy'n hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE) ac maent yn ymwybodol o'u rôl yn y gymdeithas leol ac yn y byd ehangach.

**Addysgu: Da**

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn addysgu'n dda. Mae'r holl athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth yn effeithiol wrth gynllunio eu gwersi. Mewn llawer o wersi defnyddir ystod eang o dechnegau dysgu ac addysgu. Mae cyflymder addas ynghyd â her priodol ac amcanion clir i lawer o wersi. Yn yr ychydig wersi rhagorol, mae'r athrawon yn cynnal diddordeb brwd y dysgwyr, yn adolygu'n dda, yn cynnwys y disgyblion yn llawn yn y broses o asesu eu gwaith ac yn cynnal sesiynau cloi effeithiol iawn. Yn yr ychydig iawn o wersi digonol, cyfyngir ar gynnydd y disgyblion gan addysgu athro-ganolog a diffyg cyfraniad y disgyblion i'r gweithgareddau a'r broses o asesu eu dysgu eu hunain. Mae ansawdd y marcio'n gyffredinol dda er yn anwastad rhwng ac oddi mewn i bynciau.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn cynnwys sylwadau buddiol ar sut y gall disgyblion wella eu dysgu. Mewn ychydig o lyfrau'r disgyblion, mae'r marcio'n arwynebol ac nid yw'r sylwadau'n cyfarwyddo'r disgyblion ar sut i wella. Caiff y disgyblion adborth rheolaidd ar eu cynnydd. Mae tracio cynnydd y disgyblion yn fanwl a chaiff tangyflawni ei adnabod yn fuan. Mae'r adroddiadau i rieni'n dda a chânt eu gwerthfawrogi ganddynt. Mae'r adroddiadau'n fanwl, yn bersonol i'r disgyblion ac yn nodi cynnydd a thargedau pwnc penodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau gofal yr ysgol yn gyson dda. Maent yn hybu safonau iechyd a lles y disgyblion yn effeithiol ac yn annog eu diddordeb a'u hymwneud â'u cymuned a'r byd. Mae'r ysgol yn meithrin datblygiad ysbrydol y disgyblion yn foddhaol, a'u datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion yn cael eu hadnabod, a defnyddia'r ysgol ystod eang o ddarpariaeth fewnol ac o asiantaethau allanol yn effeithiol i gefnogi ei threfniadau gofal. Mae'r ysgol yn teilwrio'r cymorth i gwrdd ag anghenion yr unigolion a'r grŵpiau sydd ei angen. Darperir cyngor addas ac amserol i ddisgyblion er mwyn iddynt wneud dewisiadau a phenderfyniadau gwybodus a hyderus. Mae gan yr ysgol bolisi diogelu plant ynghyd â gweithdrefnau priodol. Llwyddir i integreiddio disgyblion uned Tŷ Meirion i fywyd a gwaith yr ysgol yn rhagorol. Caiff datblygiad addysgol a datblygiad cymdeithasol y disgyblion hyn eu monitro'n effeithiol iawn trwy ddulliau arloesol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl ddisgyblion hawl cyfartal i ddarpariaeth a bywyd cymdeithasol yr ysgol.

Rhoddir pwyslais da ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r ysgol yn delio â'r ychydig achosion o ymddygiad gwrth-gymdeithasol, fel bwlio, yn brydlon ac effeithiol.

Caiff adnoddau o ansawdd da eu darparu i gyfarfod ag anghenion dysgu'r disgyblion.

Mae'r adeiladau o ansawdd digonol ac maent yn cael eu cynnal yn hynod o dda. Mae'r amgylchedd dysgu yn hybu safonau da.

Mae trefniadau diweddar ar gyfer mynediad i'r bysiau wedi gwella sefyllfa croesi'r ffordd yn ddigonol; mae'r rhwystrau newydd ar dir yr ysgol i atal cerbydau yn ddatblygiad da.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol a chynlluniau manwl sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r gorau i'r holl ddisgyblion. Caiff ei gefnogi'n dda gan UDRh sydd â gwybodaeth drylwyr o'r meysydd y mae pob aelod yn gyfrifol amdanynt. Mae gan yr ysgol sustemau effeithiol sy'n cefnogi gweithredu'r weledigaeth.

Mae staff yr ysgol yn gwerthfawrogi arweinyddiaeth y pennaeth ac mae cysondeb gweithredu ac atebolrwydd llawer o reolwyr yr ysgol yn dda. Mae bron y cyfan o'r arweinwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau presennol yn dda, gan roi sylw dyledus i wella safonau dysgu ac addysgu a rhoi cefnogaeth i ddisgyblion. Mewn ychydig iawn o achosion nid yw llinellau atebolrwydd yn cael eu gweithredu.

Mae'r pennaeth, yr UDRh, a'r rheolwyr canol yn defnyddio data yn dda i fonitro perfformiad, i adnabod tangyflawni ac er mwyn gosod strategaethau pwrpasol i godi safonau. Mae gofynion Rheoli Perfformiad yn cael eu gweithredu'n dda, ac mae'r staff addysgu a'r staff ategol yn cael cyfle i drafod eu gwaith a gosod targedau perthnasol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac wedi ymrwymo i wneud ei orau er budd y disgyblion. Mae gan y llywodraethwyr afael dda ar safonau yn yr ysgol, ac maent yn barod i herio'r pennaeth ar rai materion. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau statudol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a sirol. Mae wedi ymateb yn llwyddiannus i ofynion perthnasol rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, a gofynion creu ysgol iach. Mae'n cyflwyno disgyblion ar gyfer achrediad yn y sgiliau hanfodol, a chwrs Bagloriaeth Cymru yn CA4. Mae'r ysgol yn llwyddo i ddatblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion yn dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan broses hunanarfarnu'r ysgol nifer o elfennau da. Sefydlwyd gweithdrefnau clir ac o ansawdd da wrth hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r ddogfen 'Cylch Gwella Ysgol' yn offeryn effeithiol sy'n dynodi amserlen a'r elfennau i'w cynnwys yn yr adroddiad hunanarfarnu ysgol(HAY). Cryfheir arfarniad yr ysgol gan ffeiliau o dystiolaeth benodol gyfredol.

Mae rhan fwyaf yr adroddiadau hunanarfarnu adrannau (HAA) yn adnabod cryfderau'r adran a'r materion sydd angen sylw yn llwyddiannus. Nid yw ychydig ohonynt yn ddigon arfarniadol eu sylwadau.

Mae'r ysgol yn gwneud arfarniad trylwyr iawn o ddata am safonau ac ansawdd yr addysg sy'n ystyried tueddiadau a chynnydd dros gyfnod. Mae gan aelodau o'r UDRh a'r rheolwyr canol drefn effeithiol o fonitro gwersi, a chaiff athrawon gyfle i weld ei gilydd yn addysgu. Nid yw'r monitro bob amser yn ysgogi'r gwelliannau a ddymunir. Sefydlodd yr ysgol drefn drylwyr a chyson o edrych ar lyfrau'r disgyblion a rhennir adroddiad cynhwysfawr i'r staff ar ganfyddiadau'r drefn hon.

Mae dadansoddiad trylwyr o ganlyniadau'r arfarniad yn sail i drafodaeth adeiladol rhwng y penaethiaid adran a'r pennaeth.

Mae’r ysgol yn ystyried safbwyntiau ei rhanddeiliaid yn dda. Mae llais y dysgwyr i’w glywed drwy’r Cyngor Ysgol, a thrwy holiaduron a chlywir llais rhieni drwy newydd- len, trwy e-bost a thrwy ganiatáu mynediad hawdd i’r ysgol. Sefydlwyd cyswllt agos ac adeiladol gyda busnesau’r dref a’r Cyngor Tref.

Mae’r ysgol yn defnyddio adolygiadau treiddgar gan asiantaethau cefnogol yn dda. Llwydda’r ysgol i sicrhau bod y canfyddiadau a ddaw o’r hunanarfarnu yn rhan greiddiol o’r Cynllun Datblygu Ysgol (CDY). Mae’r cynllun blwyddyn, sy’n deillio o’r cynllun tair blynedd, yn offeryn defnyddiol. Mae’n canolbwyntio ar strategaethau codi safonau. Mae’r Cynlluniau Datblygu Adran (CDA) yn dilyn patrwm tebyg. Mae llawer o’r adrannau yn cynllunio’n effeithiol, ond mewn ychydig o achosion nid yw’r cynlluniau’n ddigon penodol, ac nid ydynt yn cynnwys dulliau gweithredu a deilliannau digon heriol.

Mae’r ysgol yn datblygu’n effeithiol fel cymuned ddysgu. Mae wedi ymateb yn dda i holl argymhellion yr adroddiad diwethaf. Bu cynllunio bwriadus ac effeithiol i fynd i’r afael â materion yn ymwneud â chodi safonau o fewn pynciau unigol, a materion rheolaethol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol wedi sefydlu partneriaethau gydag ystod eang o asiantaethau aml-ddisgyblaethol, sefydliadau gwirfoddol a gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hyn yn arwain at godi safonau ymhlith disgyblion.

Mae’r pennaeth yn gadeirydd y Bartneriaeth 14-19 lleol ac mae cysylltiadau â Choleg Meirion Dwyfor a darparwyr eraill yn sicrhau bod yr ysgol yn gwella safonau a lles ei disgyblion.

Mae cysylltiadau gyda’r ysgolion cynradd yn ddigonol. Adolygir y cynllun trosglwyddo cynradd-uwchradd yn flynyddol.

Mae hwyrddyfodiaid yn cael y cyfle i fynychu cwrs dwys i ddysgu’r Gymraeg mewn canolfan iaith a gynhelir gan yr AU. Mae hyn yn codi safon eu Cymraeg. Yn dilyn cyfnod yn y ganolfan, mae’r dysgwyr yn cael eu hintegreiddio i fywyd naturiol dwyieithiog yr ysgol ac mae ôl-ofal ieithyddol y staff yn effeithiol.

Sefydlwyd perthynas glós iawn rhwng yr ysgol a rhieni, gofalwyr a sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol wedi’i staffio’n briodol ac mae ganddi adnoddau da i gyfarfod â gofynion addysgu’r cwricwlwm. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o’r cymorthyddion dysgu ac o’r staff ategol a chefnogi.

Mae'r ysgol wedi llwyddo i gyfarfod â gofynion y Cytundeb Cenedlaethol ar Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Baich Gwaith'.

Mae gan yr ysgol reolaeth ariannol dda a gaiff ei fonitro a'i adolygu'n gyson gan y pennaeth, y rheolwr busnes a'r corff llywodraethol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod y gwariant yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir yn y CDY.  Gan fod cyflawniad y disgyblion, ansawdd gofal a'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn dda, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Dychwelwyd 118 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni neu ofalwyr. Mae lefelau bodlonrwydd y rhieni yn uchel iawn.  Mae safbwyntiau 90% neu uwch o rieni yn gadarnhaol mewn perthynas â phob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol.

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd holiaduron gan 25% o’r disgyblion, wedi eu dewis ar hap. Yn gyffredinol, mae safbwyntiau’r disgyblion am agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol yn gadarnhaol.

Gydag ychydig iawn o eithriadau, mae’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac o’r farn eu bod yn gwneud cynnydd da.  Yn ddieithriad, credant fod yr ysgol yn delio’n dda neu’n dda iawn ag unrhyw fwlio.  Mae rhan fwyaf y disgyblion o’r farn bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw’n iach.  Mae bron bob un yn dweud bod digon o gyfle iddynt gael ymarfer corfforol yn rheolaidd.

Mae llawer o’r farn bod safonau ymddygiad disgyblion yn dda, sy’n caniatáu iddynt barhau gyda’u gwaith.  Teimlant iddynt gael cyngor da wrth ddewis eu cyrsiau yn CA4. Mae’r rhan fwyaf yn credu bod staff yr ysgol yn eu trin gyda pharch ac yn eu helpu pan gyfyd problemau.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | | |
|---|---|---|
| Gareth Wyn Roberts | Arolygydd Cofnodol | Cyd-destun, Safonau<br>Addysgu Adroddiad Bodlonrwydd y Rhandeiliaid |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm | Rheolaeth, Gwella Ansawdd |
| Richard Roberts | Arolygydd Tîm | Profiadau Dysgu<br>Gweithio mewn Partneriaeth<br>Rheoli Adnoddau |
| Eifion Lloyd Jones | Arolygydd Lleyg | Yr Amgylchedd Ddysgu |
| Anita Hughes | Arolygydd Cymheiriaid | Lles,<br>Gofal, Cymorth ac Arweiniad |
| Peter Maddocks | Enwebai'r Ysgol | |

**Contractwr:** Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw’n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy’n gofyn am gopi o’r adroddiad. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grŵpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grŵpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r sustem hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |